**Crynodeb o Gyfarfod o Fwrdd S4C**
Cyfarfod Rhif 472 a gynhaliwyd yn Swyddfa S4C, Caernarfon

10:00, 17 Gorffennaf 2024

---

## Cofnodion

| **Aelodau oedd yn bresennol:** | | |
|---|---|---|
| Guto Bebb | GB | Cadeirydd (dros dro) |
| Geraint Evans | GE | Prif Swyddog Cynnwys (dros dro) |
| Adele Gritten | AG | Aelod Anweithredol – yn rhithiol, o eitem 11 |
| Chris Jones | CJ | Aelod Anweithredol |
| Denise Lewis Poulton | DLP | Aelod Anweithredol – yn rhithiol |
| Elin Morris | EM | Prif Swyddog Gweithredu |
| Suzy Davies | SuD | Aelod Anweithredol – hyd at eitem 19.2 |
| Sioned Wiliam | SW | Prif Weithredwr (dros dro) |
| **Eraill oedd yn bresennol:** | | |
| Manon Edwards Ahir | MEA | Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Marchnata |
| Llinos Priestland | LlP | Swyddog Gweithredol i Ysgrifennydd y Bwrdd |
| Geraint Pugh | GP | Ysgrifennydd Bwrdd S4C |
| Fflur Jones | FfJ | Partner Rheoli, Darwin Gray (yn arsylwi) |
| Sharon Winogorski | ShW | Prif Swyddog Cyllid – yn rhithiol, ar gyfer eitemau 6, 7 & 8 |
| Dr Ioan Rees | IR | Prif Weithredwr Sycol – ar gyfer eitem 12 |

| | | |
|---|---|---|
| 1. | **Materion a godwyd gan y Cadeirydd, a datganiadau diddordeb**<br><br>Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod.<br><br>Gofynnodd y Cadeirydd i unrhyw Aelod oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod i ddatgan eu diddordeb. Ni ddatganwyd unrhyw ddiddordeb. | |
| 2. | **Strategaeth Cynnwys a Chyhoeddi**<br><br>Cyflwynodd GE y Strategaeth, oedd wedi cael ei ystyried gan y Pwyllgor Cynnwys ar 20 Mehefin 2024. Yn y cyfarfod hwnnw, cytunwyd i argymell bod y Bwrdd yn cymeradwyo'r Strategaeth.<br><br>Holodd SuD beth oedd ymateb staff yn dilyn symleiddio'r pileri? Nododd SW bod y Tîm Rheoli heb rannu gyda'r staff eto ond bod nhw'n mynd i gynnal gweithdy. Ychwanegodd GE bod dim newid blaenoriaethau yn y strategaeth gynnwys – yn hytrach, roedd y Strategaeth yn cynnig mwy o gig.<br><br>Holodd CJ ynglŷn â sut y byddem yn mesur llwyddiant yn erbyn y Strategaeth? Ymatebodd GE bod angen darn o waith ar wahân er mwyn ailystyried y KPIs. Maent yn llinol iawn ar hyn o bryd ac mae angen mwy o bwyslais ar gyrhaeddiad ein cynnwys digidol, unigol. Nid yw'r dashfwrdd misol yn cwmpasu popeth, ac nid yw'n eglur beth mae rhai o'r mesuryddion presennol yn ei gynnig.<br><br>Ychwanegodd MEA bod hefyd angen trafodaeth ynghylch beth yn union yw llwyddiant. Roedd angen edrych ar effaith ('impact') ein cynnwys, yn hytrach na dim ond ar faint y gynulleidfa. Yn hynny o beth, nododd GE ei fod wedi cynnwys dashfwrdd newydd i'r Pwyllgor Cynnwys - yn edrych ar gynnwys y llynedd. Roedd hyn yn golygu tynnu'r holl wybodaeth oedd gennym ynghyd, gan roi sgôr i bob darn o gynnwys. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Roedd gan GB ddiddordeb mewn faint o ymdrech oedd yn cael ei wneud i fasnachu'r gwahanol lwyfannau? Nododd MEA bod y marchnata ddim yr un peth dros bob llwyfan ac i bob oedran a chategori. Defnyddir arbenigwyr allanol i dargedu grwpiau. Gwelir beth sy'n llwyddo ar y pryd, a beth sydd angen wthio ymhellach os ydynt yn gweld bod nhw'n llwyddo ar y llwyfannau le ni'n ceisio targedu unigolion.<br><br>**Penderfyniad: I gymeradwyo'r Strategaeth Cynnwys a Chyhoeddi.** | GE |
| 3. | **Diweddariad chwarterol ar ddashfwrdd cyflawni'r Strategaeth**<br><br>Roedd DE wedi bod i ffwrdd o'r gwaith yn ddiweddar, felly nid oedd wedi paratoi'r dashfwrdd chwarterol arferol. Serch hynny, roedd wedi ymrwymo i wneud erbyn diwedd y mis. Ni ragwelir y byddai unrhyw newidiadau sylweddol fyddai angen trafodaeth fanwl.<br><br>**Penderfyniad: DE i gylchredeg y diweddariad dros e-bost erbyn diwedd y mis i Aelodau'r Bwrdd.** | DE |
| 4. | **Cynnydd ar y Cynllun Gweithredu**<br><br>Amlinellodd SW y prif ddatblygiadau ers yr adroddiad blaenorol i'r Bwrdd.<br><br>Holodd CJ pryd fyddai'r arolwg Pwls nesaf? Atebodd SW bod y Tîm Rheoli wedi dweud byddent yn cynnal arolwg Pwls ym mis Gorffennaf. Gan fod Nia Bennett wedi dechrau ei swydd dros dro yn yr adran Pobl a Diwylliant, gobeithir y gellir bwrw ymlaen i gynnal yr arolwg yn fuan.<br><br>Nodwyd i'r Bwrdd gytuno yn ei gyfarfod diwethaf i gyhoeddi diweddariad ar y Cynllun Gweithredu yn chwarterol ar y wefan. Awgrymwyd y byddai'n syniad da i gyhoeddi'n fwy aml.<br><br>**Penderfyniad: O hyn allan, i gyhoeddi'r cynnydd ar y Cynllun Gweithredu ar y wefan yn fuan wedi i'r diweddariad gael ei ystyried gan y Bwrdd.** | GP |
| 5. | **Adroddiad y Tîm Rheoli**<br><br>Cyflwynodd SW'r adroddiad, gan nodi bod y Tîm Rheoli wedi cael cyfarfod 'Cwrdd i Ffwrdd' buddiol pellach yn yr Ardd Fotaneg ddechrau Gorffennaf 2024. Yn sgil y trafodaethau yn yr Ardd Fotaneg, byddai DE yn arwain adolygiad o sut rydym am newid ein ffyrdd o weithio er mwyn rhyddhau amser staff er mwyn caniatáu iddynt ffocysu ar y blaenoriaethau.<br><br>Nododd SW bod Cwrdd i Ffwrdd staff yng Nghaerdydd wedi bod yn fuddiol iawn. Roedd y Tîm Rheoli wrthi'n prosesu'r adborth a dderbyniwyd, ond roedd yn debyg i'r hyn oedd eisoes wedi codi yn y Tîm Rheoli.<br><br>Roedd SuD'n croesawu'r adborth o'r Cwrdd i Ffwrdd staff ond oedd y Tîm Rheoli'n hyderus bod staff yn ymddiried yn fwy ynddynt a pholisïau/ strategaethau S4C? Atebodd SW bod e'n ymddangos felly, bod pobl yn fwy agored i drafod, ond dal elfen o ansicrwydd. Oherwydd costau, roedd ond modd cynnal Cwrdd i Ffwrdd dwywaith y flwyddyn ar y mwyaf, felly roedd angen sicrhau bod cyfleoedd eraill i ddod a phobl at ei gilydd.<br><br>Holodd SuD beth oedd y sefyllfa ynglŷn â staff yn gweithio gartref, ac oedd hyn yn creu trafferth ynghylch ymwneud a'i gilydd? Nododd SW taw elfen bwysig fan hyn yw hyfforddiant i'r rheolwyr. Mae tipyn o waith angen digwydd i ystyried trefniadau hyfforddiant oddi fewn i S4C, ac mae Nia Bennett (Pobl a Diwylliant) yn gweithio ar hyn nawr.<br><br>**Penderfyniad: Bod adroddiad byr yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd ar ystyriaethau gweithio hybrid, a'r hyfforddiant perthnasol sy'n cael ei ddarparu i reolwyr.**<br><br>Dywedodd CJ bod e'n croesawu fformat newydd yr Adroddiad a bod e'n gobeithio bod e'n golygu llai o waith ar gyfer y Tim Rheoli.<br><br>[ymunodd ShW â'r cyfarfod] | NB |
| 6. | **Adroddiad Ariannol Chwarter 4, 2023–24**<br><br>Cyflwynodd ShW gyfrifon rheoli ar gyfer diwedd y flwyddyn. Wrth wneud hynny, nododd i'r Bwrdd weld y cyfrifon statudol ddiwedd mis Mehefin, ond bod y cyfrifon rheoli'n dangos y canlyniad yn erbyn y | |

| | | |
|---|---|---|
| | gyllideb am y flwyddyn. Yn hynny o beth, roedd y canlyniadau yn ôl y disgwyl, er bod cronfeydd wrth gefn yn cael eu defnyddio i dalu am rywfaint o orwariant y llynedd.<br><br>Mae mwy o stoc na'r arfer yn cael ei drosglwyddo i'r flwyddyn ariannol hon. Mae wedi'i yrru'n bennaf gan daliadau ar gyfer dramâu i'w darlledu – am fod gennym ni dipyn o gyfresi drama sydd wedi llithro i 2024-25 am wahanol resymau. | |
| 7. | **S4C Masnachol**<br><br>Yng nghyfarfod Bwrdd y Grŵp Masnachol ar 26 Mehefin 2024, derbyniwyd adroddiadau ar berfformiad ariannol diwedd y flwyddyn adrodd 2023–24 ar gyfer y gweithgareddau masnachol, ac fe gymeradwywyd y gyllideb fasnachol ar gyfer 2024–25. Rhannwyd y dogfennau hyn gydag aelodau'r Bwrdd Unedol er gwybodaeth, ac fe amlinellodd ShW y prif agweddau.<br><br>Holodd DLP sut oedd y Bwrdd Unedol yn goruchwylio risgiau masnachol? Trafodwyd hyn, ac fe awgrymodd CJ ei bod yn ddigonol i'r risgiau allweddol gael eu cofnodi ar gofrestr risg masnachol, ac os ydynt yn berthnasol i'r Grŵp dylid eu cynnwys yn y gofrestr risg Grŵp. Roedd presenoldeb CJ ac AdG fel aelodau o'r Bwrdd Masnachol hefyd yn rhoi sicrwydd ar yr agwedd honno. Mae hyn yn gweithio am y tro, ond efallai y bydd angen ail-ystyried os bydd y personoliaethau'n newid. Mae'r agwedd ar enw da yn berthnasol i'r Bwrdd Unedol.<br><br>Tynnodd CJ sylw hefyd at y ffaith bod cyllideb pum mlynedd ar dudalen 41 yr adroddiad. Roedd yn bwysig nodi ei fod yn seiliedig ar set anhysbys o fuddsoddiadau a sylweddoliadau a bod y rhagolygon yn caniatáu colledion tybiedig. Mae hynny wedyn yn cyd-fynd â'r agwedd rheoli rhanddeiliaid, gan ei bod yn debygol y bydd colledion, ond rydym yn ymwybodol o hynny.<br><br>Dywedodd ShW ei bod yn bwysig nodi bod buddsoddiadau posib yn cael eu craffu'n ofalus ac nad oedd buddsoddiadau yn cael eu gwneud dim ond er mwyn buddsoddi.<br><br>**Penderfyniad: I gymeradwyo'r adroddiad ariannol ar gyfer 2023–24 a'r gyllideb ar gyfer 2024–25 mewn perthynas â S4C Masnachol.** | ShW |
| 8. | **Setliad Cyflog 2024–25**<br><br>Cyflwynodd EM y setliad cyflog arfaethedig, a oedd wedi cael ei ystyried gan y Pwyllgor Pobl a Thaliadau ar 12 Mehefin 2024. Ers y cyfarfod hwnnw, roedd EM wedi rhannu'r cynnig gyda Bectu.<br><br>Roedd argaeledd Swyddog Negodi Bectu yn golygu bod angen iddynt drefnu rhywun arall i gynnal y bleidlais ar p'un ai i dderbyn y setliad cyflog ymysg aelodau'r undeb. Trafodwyd yr amseru tebygol, a goblygiadau penderfyniad i beidio derbyn y setliad.<br><br>Holodd SuD sut oedd hyn a gynigir yn awr yn cyd-fynd â'n cyllideb ar gyfer y flwyddyn? Atebodd ShW bod e o fewn beth oeddent wedi'i gyllidebu yn gyffredinol. Serch hynny, nododd ShW bod angen fod yn ystyriol nid yn unig o'r hyn y mae'r BBC yn ei gynnig, ond hefyd beth mae'r sector yn debygol o fod yn dyfarnu eu staff.<br><br>**Penderfyniad: I gymeradwyo'r setliad cyflog fel yr argymhellwyd yn yr adroddiad.**<br><br>[gadawodd ShW y cyfarfod] | EM |
| 9. | **Adolygu Adroddiad Cynnwys 2023–24**<br><br>Cyflwynodd GE y papur oedd yn adolygu perfformiad cynnwys S4C yn ystod 2023–24. Nododd y byddai angen ei gyhoeddi er mwyn cydymffurfio gyda gofynion Ofcom bod S4C yn cynnal adolygiad o berfformiad yn erbyn Polisi Rhaglenni 2023–24.<br><br>Nodwyd bod y Pwyllgor Cynnwys wedi ystyried yr adroddiad ar 20 Mehefin 2024, ac wedi argymell bod y Bwrdd yn cymeradwyo'r Adroddiad.<br><br>**Penderfyniad: I gymeradwyo Adolygiad Adroddiad Cynnwys 2023-24.** | GP |
| 10. | **Rheolau Sefydlog**<br><br>Roedd Deddf Cyfryngau 2024, a gytunwyd yn ystod Mai 2024 cyn i'r Senedd godi ar gyfer yr etholiad cyffredinol, yn darparu'r sail statudol hir-ddisgwyliedig ar gyfer trefniadau llywodraethiant S4C i'r | |

| | | |
|---|---|---|
| | dyfodol. Roedd swyddogion y DCMS bellach yn trafod opsiynau ar gyfer rhoi'r elfennau statudol sy'n ymwneud â llywodraethiant S4C ar waith, ac wedi awgrymu y gellid gwneud hynny yn gynnar ym mis Awst 2024. Er mwyn cyflawni hyn, bydd angen i Fwrdd S4C gymeradwyo rhai diwygiadau i'r Rheolau Sefydlog.<br><br>Roedd yr Ysgrifennydd a'r Prif Swyddog Gweithredu felly wedi adolygu'r Rheolau Sefydlog presennol, ac fe gyflwynodd GP adroddiad oedd yn amlinellu'r prif ddiwygiadau oedd yn cael eu hargymell ar y pwynt yma.<br><br>Nodwyd bod y Bwrdd eisoes wedi ymrwymo i gynnal adolygiad trylwyr o'r Rheolau Sefydlog fel rhan o'r Cynllun Gweithredu gyhoeddwyd ddiwedd Chwefror 2024. Bydd yr adolygiad trylwyr hwnnw'n digwydd yn ystod hydref 2024, unwaith ag y byddwn wedi cael cyfle i ystyried argymhellion Darwin Gray yn dilyn yr adolygiad o effeithiolrwydd llywodraethu.<br><br>**Penderfyniad: I gymeradwyo'r diwygiadau i'r Rheolau Sefydlog, i ddod i rym unwaith bydd yr elfennau perthnasol o Ddeddf Cyfryngau 2024 wedi eu rhoi ar waith yn ffurfiol.**<br><br>[ymunodd AG â'r cyfarfod] | GP |
| 11. | **Adroddiad Darwin Gray ar yr adolygiad o effeithiolrwydd llywodraethu**<br><br>Adroddodd FfJ ei bod wrthi'n drafftio ei hadroddiad ffurfiol at sylw'r Bwrdd fel rhan o gam olaf yr Adolygiad o Effeithiolrwydd Llywodraethu. Roedd yn gobeithio cyflwyno'r adroddiad hwnnw yn ystod mis Awst 2024.<br><br>Yn y cyfamser, amlinellodd y prif themâu yr oedd yn rhagweld y byddai'n ymddangos yn yr adroddiad.<br><br>Nodwyd bod angen rhoi cyfle i'r Bwrdd thrafod ei ymateb i'r adroddiad llawn pan fyddai wedi ei dderbyn gan FfJ. Esboniodd GP mai'r bwriad oedd trefnu cyfle i drafod ymhellach yn ystod y Cwrdd i Ffwrdd ym mis Medi.<br><br>**Penderfyniad: I drefnu trafodaeth yn y Cwrdd i Ffwrdd ym mis Medi ar yr Adolygiad Effeithiolrwydd Llywodraethiant.**<br><br>[ymunodd Dr Ioan Rees â'r cyfarfod] | GP |
| 12. | **Cyflwyniad gan Sycol**<br><br>Croesawyd IR i'r cyfarfod ac fe'i gwahoddwyd i roi cyflwyniad byr ar sut mae'n bwriadu mynd ati i weithio gydag S4C dros y misoedd nesaf i gytuno ar y diwylliant mewnol i'r dyfodol.<br><br>Amlinellodd IR ei syniadau. Nododd yn aml iawn bod llawer o bethau sydd angen eu datrys, ond gan amlaf os ydynt yn adnabod beth yw'r broblem o dan y wyneb (diwylliant fel arfer) mae modd datrys cymaint yn fwy. Nid yw staff chwaith am ddatrys problemau – maent am fod yn rhan o adeiladu rhywbeth gwell.<br><br>Aeth ymlaen i egluro byddai'r sesiynau gyda staff yn ymgorffori'r amrywiaeth o benawdau a amlinellwyd yn y Cynllun Gweithredu o ran hyfforddiant. Fel rhan o hyn, byddai Sycol yn hyfforddi tîm craidd oddi fewn y cwmni, fel bod nhw'n cael perchnogaeth o'r gwaelod i fyny o sefydlu'r fframwaith sy'n bwysig iddyn nhw.<br><br>Pwysleisiodd IR mai sut mae S4C yn gwneud beth mae'n gwneud yn barod yw'r ffocws yma ac nid creu gwaith ychwanegol i'r staff. Er hynny bydd mwy o waith i ddechrau achos bydd angen mynychu'r hyfforddiant, ond ddim wedi hynny. Ychwanegodd taw gwaith Sycol oedd sicrhau safon, fel bod pobl yn gwybod beth yw'r ffiniau, ac yn bwysig bod staff yn rhan o adeiladu'r ffiniau hynny. Bydd rhaid i'r ffiniau cael ei wahaniaethau oherwydd gwahanol ddiwylliannau o fewn adrannau oddi fewn i'r ffiniau hynny.<br><br>[gadawodd IR y cyfarfod] | |
| 13. | **'Business Continuity Plan'**<br><br>Yng nghyfarfod y Bwrdd ar 23 Mai 2024, cytunwyd y byddai'n ddefnyddiol i'r Bwrdd weld y Cynllun Parhad Busnes S4C ('Business Continuity Plan') er mwyn i'r corff gael sicrwydd bod trefniadau addas | |

| | | |
|---|---|---|
| | mewn lle. Cydnabuwyd hefyd bod hi'n bwysig i'r Bwrdd ffocysu ar yr ystyriaethau strategol yn hytrach nag unrhyw bolisïau unigol sy'n rhan o'r cynllun.<br><br>Cylchredwyd copi o Gynllun Parhad Busnes S4C ar gyfer ein gweithgareddau nad ydynt yn ymwneud â darlledu. Mae trefniadau darlledu S4C yn rhan o Gynllun Parhad Busnes ar wahân y BBC. Nodwyd hefyd i'r archwilwyr mewnol, TIAA, adolygu trefniadau Cynllun Parhad Busnes S4C yn ystod Chwefror 2024 gan roi 'substantial assurance' a heb godi unrhyw argymhellion.<br><br>Awgrymodd DLP y byddai'n ddefnyddiol ychwanegu cynllun cyfathrebu i'r Cynllun Parhad Busnes er mwyn cynnig ychydig o arweiniad pe byddai angen. | |
| 14. | **Adroddiadau gan y Pwyllgorau**<br><br>Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgorau canlynol, ac fe wahoddwyd y cadeiryddion i dynnu sylw'r Bwrdd at unrhyw faterion perthnasol nad oeddent eisoes wedi eu crybwyll yn ystod y cyfarfod hwn:<br>• Archwilio a Risg (a gynhaliwyd ar 17/05/24 a 27/06/24)<br>• Pobl a Thaliadau (a gynhaliwyd ar 12/06/24)<br>• Cyfathrebu (a gynhaliwyd ar 14/06/24)<br>• Cynnwys (a gynhaliwyd ar 20/06/24)<br>• Bwrdd y Grŵp Masnachol (a gynhaliwyd ar 26/06/24) | |
| 15. | **Cofnodion y cyfarfodydd blaenorol:**<br>**Cyfarfod rhif 470, a gynhaliwyd 23/05/24**<br>**Cyfarfod rhif 471, a gynhaliwyd 27/06/24**<br><br>Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd diwethaf y Bwrdd, ac fe'u cymeradwywyd. | |
| 16. | **Pwyntiau Gweithredu**<br><br>Nodwyd y gofrestr Pwyntiau Gweithredu.<br><br>**Penderfyniad: I adolygu'r pwynt gweithredu hanesyddol sy'n ymwneud â'r gweithgareddau masnachol.** | GP / EM |
| 17. | **Penderfyniadau rhwng cyfarfodydd**<br><br>Nodwyd y penderfyniad a gymerwyd rhwng cyfarfodydd, sef:<br><br>• Cymeradwyaeth yr aelodau anweithredol ar gyfer proses diwygiedig ar gyfer mynd ati i benodi Prif Weithredwr parhaol cyn gynted â phosib. | |
| 18. | **Rhaglen waith y Bwrdd ar gyfer y 12 mis nesaf**<br><br>Nodwyd rhaglen waith y Bwrdd ar gyfer y flwyddyn nesaf. | |